

Beth yw *Datgloi Llyfrgelloedd*?

Ystyr ***Datgloi Llyfrgelloedd*** yw defnyddio technoleg newydd i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r llyfrgell pan nad oes staff yn bresennol. Bydd mynediad i'r llyfrgell drwy gyfrwng cerdyn llyfrgell dilys dros dro a PIN gyda 4 rhif a ddyrennir i chi unwaith y byddwch wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, wedi llofnodi'r cytundeb ac wedi cael gwybodaeth gan y staff.

Gall aelodau'r llyfrgell gofrestru i ddefnyddio llyfrgell Caerfyrddin yn ystod oriau pan na fydd staff yno rhwng:

Nos Lun 19:15 – 21:00

Nos Iau 19:15 – 21:00

Cymhwyster

Caiff unrhyw un 16 oed neu hŷn gofrestru i ddefnyddio ***Datgloi Llyfrgelloedd*** ar yr amod bod ganddo reswm dilys pam mae arno angen mynediad dros dro.

Sut gallaf i gofrestru ar gyfer *Datgloi Llyfrgelloedd*?

- Mae angen i chi gofrestru eich cerdyn llyfrgell gydag aelod o'r staff.
- Bydd angen i chi fod yn aelod llawn o Lyfrgelloedd Sir Gâr.
- Bydd arnoch angen rheswm dilys dros gael mynediad i ***Datgloi Llyfrgelloedd***.
- Bydd angen i chi lofnodi a derbyn cytundeb y cwsmer a'r cod ymddygiad. Bydd cwsmeriaid na fyddant yn glynu at hyn yn debygol iawn o golli eu cymhwyster i ddefnyddio ***Datgloi Llyfrgelloedd***.
- Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cadw'r hawl i wrthod rhoi statws ***Datgloi Llyfrgelloedd*** i gwsmeriaid. Cymerir arfarniad o ddefnydd blaenorol o'r llyfrgell i ystyriaeth wrth benderfynu ar gymhwyster.

Sut bydd *Datgloi Llyfrgelloedd* yn gweithio?

- Bydd angen i chi sganio eich cerdyn llyfrgell a rhoi eich rhif PIN i mewn gan ddefnyddio'r sganiwr a'r bysellbad wrth y fynedfa ddynodedig i ddatgloi'r drws. Mae'n bwysig i chi gael eich cerdyn llyfrgell gyda chi bob amser; fel arall ni fyddwch yn medru cael mynediad i'r llyfrgell.

- Pan nad oes staff yn y llyfrgell, bydd y system **Datgloi Llyfrgelloedd** yn rheoli'r holl oleuadau a larymau, bydd peth golau ymlaen drwy'r amser ond bydd mynd i mewn i'r llyfrgell gan ddefnyddio eich PIN yn troi'r holl oleuadau angenrheidiol ymlaen.
- Mae camerâu cylch cyfyng wedi eu gosod ac yn cael eu monitro er mwyn sicrhau eich diogelwch chi, yr offer, y stoc a'r adeilad.
- Bydd ffôn argyfwng ar gael i rifau dynodedig yn unig.
- Bydd gweithdrefnau tân ac argyfwng wedi eu harddangos wrth y fynedfa ddynodedig.
- Bydd uchelseinydd yn eich rhybuddio pan:
 - fydd staff y llyfrgell yn gadael yr adeilad
 - fydd yn amser cau pan nad oes staff ar y safle ac mae'r adeilad yn cau am y dydd.
- **Rhaid i chi adael yr adeilad pan glywch y rhybudd. Ar amser cau, bydd y peiriannau a'r goleuadau yn cael eu diffodd a gosodir larwm yr adeilad.**
- Sylwch, os gwelwch yn dda, y bydd angen i chi adael y llyfrgell gyda staff y llyfrgell pan fyddant hwy'n gadael ac wedyn mynd yn ôl i mewn gan ddefnyddio eich cerdyn llyfrgell eich hun a'ch PIN. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond cwsmeriaid sydd wedi eu cofrestru fydd yn gallu defnyddio'r cyfleuster yn null **Datgloi Llyfrgelloedd**.

Beth allaf i ei wneud yn null *Datgloi Llyfrgelloedd*?

- Ymchwilio i ddeunydd.
- Defnyddio ein cyfrifiaduron cyhoeddus.
- Cael mynediad Wi-Fi.
- Defnyddio'r toiledau.

Beth sydd ddim ar gael yn null *Datgloi Llyfrgelloedd*?

- Gwerthu unrhyw nwyddau
- Ni fydd argraffu a llungopïo ar gael yn syth.